# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Brynsiriol**

**259/261 Heol Castell-nedd**
**Llansawel**
**Castell-nedd**
**SA11 2SL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

09/04/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Brynsiriol

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Oedolion Heb Ofal Nyrsio |
| Darparwr Cofrestredig | Bravemore Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 20 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Yn Gweithio Tuag Ato |

## Crynodeb

Mae Brynsiriol wedi gwneud gwelliannau sylweddol ers yr arolygiad diwethaf. Ystyriodd yr arolygiad llawn hwn hefyd feysydd lle nad oedd y gwasanaeth yn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn ystod yr adolygiad diwethaf a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2020.

Mae'r rhain yn ymwneud â safonau hylendid a rheoli heintiau, cyflenwadau a threfniadau llywodraethu. Mae'r cartref yn groesawgar, yn lân ac yn gartrefol. Mae'r gweithwyr gofal yn weladwy ac yn rhyngweithio'n dda â'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Gwelsom safonau rheoli heintiau llawer gwell ac roedd gweithdrefnau da ar waith ar gyfer cyflenwadau o gyfarpar diogelu personol (PPE) a rheoli gwastraff. Mae'r ystafelloedd gwely a'r ardaloedd cymunedol yn ddymunol, yn lân ac mewn cyflwr da.

Mae'r trefniadau llywodraethu wedi gwella'n sylweddol, ac mae prosesau clir ar waith sy'n dangos y caiff y gwasanaeth ei oruchwylio'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau gweithredol chwarterol a bob chwe mis sy'n ymdrin â meysydd allweddol, megis archwiliadau o ffeiliau'r staff a'r bobl, iechyd a diogelwch, diogelu a hyfforddiant saff.

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm o staff cyson sy'n adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi'n dda iawn. Mae'r bobl yn fodlon eu byd mewn gwasanaeth sy'n gartrefol ac yn groesawgar. Mae'r gweithwyr gofal yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn eu rolau, a'u bod wedi cael digon o hyfforddiant a goruchwyliaeth i gyflawni eu rolau.

## Llesiant

Mae gan y bobl lais a chânt eu trin â pharch ac urddas. Cadarnhaodd y bobl a'r perthnasau y gwnaethom siarad â nhw fod asesiadau a chynlluniau personol yn cael eu hysgrifennu gyda'u mewnbwn o ddechrau'r ddarpariaeth gofal, a'u bod yn adlewyrchu anghenion y bobl. Gwelsom fod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diwygio yn ôl yr angen. Roedd pawb y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gwasanaeth ac yn teimlo parch mawr tuag at y tîm cyfan o staff. Gofynnir i'r bobl am eu barn am y gwasanaeth er mwyn nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda neu ble y gellid gwneud gwelliannau. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg (mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth a dogfennaeth yn Gymraeg heb fod angen i bobl ofyn amdanynt). Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw siaradwyr Cymraeg yn byw yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, pe bai'r galw hwn yn codi yn y dyfodol, byddai'r gwasanaeth yn ystyried cyfieithu dogfennau allweddol yn ogystal â recriwtio gweithwyr gofal sy'n siarad Cymraeg.

Caiff iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl eu hybu. Mae gan y gwasanaeth weithdrefnau da ar waith i reoli gofynion meddyginiaeth yn y cartref. Caiff unrhyw broblemau o ran iechyd a llesiant y bobl eu dogfennu mewn cofnodion gofal a dogfennau trosglwyddo er mwyn sicrhau parhad gofal. Gofynnir am gyngor meddygol mewn modd amserol, a chaiff anghenion newidiol y bobl eu hadolygu a'r cynlluniau personol eu haddasu i ddarparu ar gyfer unrhyw newidiadau.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed ac esgeulustod. Mae'r gweithwyr gofal yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu'r bobl, ac maent yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn. Gwelsom y polisïau diogelu a chwythu'r chwiban, ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth glir am y broses adrodd y dylai'r staff ei dilyn. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda, ac yn gallu nodi unrhyw waethygiad yn iechyd corfforol neu iechyd meddwl y bobl yn gyflym, a cheisio cyngor gan weithwyr meddygol proffesiynol yn ôl yr angen.

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm gofal sydd wedi meithrin cydberthnasau da â nhw. Mae'r gweithwyr gofal yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn eu rolau. Mae'r gweithwyr gofal yn gyfarwydd â'r bobl y maent yn eu cefnogi. Roedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn falch o weithio yn y gwasanaeth ac yn fodlon iawn yn eu rolau, a chafwyd canmoliaeth gan berthnasau i ddull cyfathrebu agored y gwasanaeth.

Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n eu cefnogi eu llesiant. Mae'r gwasanaeth yn gartrefol, wedi'i bersonoli ac mewn cyflwr da. Cynhelir archwiliadau a gwiriadau amgylcheddol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn gartrefol ac yn ddiogel i'r bobl. Mae'r gwasanaeth yn ddiogel gyda'r drysau wedi'u cloi a chyfyngwyr ar y ffenestri. Mae systemau ar waith wrth gyrraedd a gadael yr adeilad. Darperir amgylchedd diogel a chartrefol i'r bobl.

## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl eu cefnogi gan wasanaeth sy'n sicrhau bod ganddynt gynllun gofal cywir a chyfredol. Gwnaethom edrych ar ddwy ffeil gofal a gwelsom fod y wybodaeth sydd ar gael i'r gweithwyr gofal yn fanwl, yn hawdd ei deall ac yn adlewyrchu anghenion presennol y bobl. Mae'r cynlluniau hyn, sydd wedi'u hysgrifennu o safbwynt yr unigolyn, yn pwysleisio faint o gymorth sydd ei angen ar y bobl a phryd. Mae'r proffiliau personol yn rhoi trosolwg da o'r unigolyn ac yn nodi'r hyn sy'n bwysig iddo. Mae'r cofnodion dyddiol yn glir, yn hawdd eu darllen ac yn cynnwys cofnod o gymeriant bwyd a hylif y bobl. Mae'r rheolwr yn cynnal adolygiadau misol o'r ffeiliau gofal gyda'r unigolyn neu aelodau o'r teulu os bydd angen gwneud unrhyw newidiadau. Cadarnhawyd hyn mewn adborth gan berthnasau. Roedd y sylwadau a wnaed yn cynnwys: "*They always contact me immediately regarding any concerns or any changes needed to the care plan" (Maen nhw bob amser cysylltu â mi yn syth os bydd unrhyw bryderon neu os bydd angen gwneud unrhyw newidiadau i'r cynllun gofal)* ac "*we have a very open dialogue with the care home and are always asked for approval to any changes required" (mae gennym ddeialog agored â'r cartref gofal a gofynnir i ni gymeradwyo unrhyw newidiadau gofynnol bob amser).*

Caiff y bobl eu diogelu rhag niwed a chamdriniaeth, a'u cefnogi i gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau eraill er mwyn cynnal eu hiechyd, eu datblygiad a'u llesiant parhaus. Mae'r gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda, ac maent yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon amdanynt. Maent hefyd wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu. Gwelsom fod trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoLS) ar waith ar gyfer pobl nad oes ganddynt alluedd i wneud penderfyniadau ynghylch eu gofal a'u cymorth. Mae cofnodion o apwyntiadau meddygol yn y ffeiliau. Gwelsom fod llyfr cyfathrebu ar waith a bod gwybodaeth bwysig yn cael ei chofnodi a'i rhannu wrth drosglwyddo sifftiau er mwyn sicrhau parhad gofal. Roedd yr adborth proffesiynol a gafwyd ar gyfer y gwasanaeth yn gadarnhaol ac yn nodi y caiff unrhyw broblemau neu bryderon am y bobl eu cyfleu'n gyflym a'u hunioni'n briodol.

Mae systemau diogel ar waith i reoli meddyginiaeth yn y gwasanaeth. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei chadw mewn sêffs unigol yn ystafelloedd y bobl eu hunain. Cynhelir gwiriadau tymheredd er mwyn sicrhau y caiff meddyginiaeth ei storio o fewn yr ystod tymheredd ofynnol. Dywedodd y rheolwr wrthym y caiff blociau oer a ddarperir gan y fferyllfa eu rhoi yn y sêffs os bydd y tymheredd yn codi. Gwnaethom edrych ar ddwy siart cofnodion rhoi meddyginiaeth (MAR), a oedd wedi'u cwblhau'n gywir. Gwelsom gofnodion o archwiliadau meddyginiaeth i fonitro'r broses o storio a gwaredu meddyginiaethau'n ddiogel. Caiff unrhyw feddyginiaeth a roddir 'yn ôl yr angen' (PRN) ei chofnodi'n briodol, yn ogystal â'r sgîl-effeithiau.

Mae'r gwasanaeth yn hybu arferion hylan ac yn rheoli'r risg o haint. Gwelsom fod biniau personol, wedi'u leinio â bagiau gwastraff melyn, y tu allan i bob ystafell ac wrth bob allanfa yn y cartref. Defnyddir bagiau coch hydawdd wedi'u selio fesul unigolyn ar gyfer golchi dillad. Roedd sawl gorsaf cyfarpar diogelu personol (PPE) o amgylch y cartref, gan gynnwys wrth y mynedfeydd a'r allanfeydd. Roedd digon o ddeunyddiau glanhau a PPE yn y cartref, ac roedd gel diheintio dwylo a sebon ar gael i'w defnyddio'n aml. Mae gweithdrefnau ar waith ar gyfer casglu gwastraff.

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr yn sicrhau y darperir gofal a chymorth unigol mewn amgylchedd sy'n hyrwyddo canlyniadau personol y bobl. Mae naws gartrefol yn Brynsiriol, mae'r ardaloedd cymunedol yn lân, yn gartrefol ac wedi'u personoli, ac mae lolfa dawel ar gael ar gyfer cyfarfodydd ac ymwelwyr. Gwelsom fod yr ystafelloedd gwely wedi'u personoli ag eiddo ac arteffactau'r bobl eu hunain. Gwelsom fod dwy gegin yn y cartref, sydd ar gael i'r staff eu defnyddio yn unig. Dywedwyd wrthym fod y staff yn mynd i nôl eitemau o'r gegin pan fydd y bobl am helpu gyda dyletswyddau domestig, er mwyn eu helpu i gymryd rhan (h.y. golchi llestri). Mae ystafell golchi dillad fach yn y gwasanaeth, a oedd yn lân ac yn drefnus ac na allai'r bobl fynd iddi. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y byddai rhai o'r bobl yn helpu gyda'r golch cyn y pandemig presennol. Gwelsom fod bagiau coch hydawdd yn cael eu defnyddio fesul unigolyn ar gyfer golchi dillad, a bod y bagiau hyn yn cael eu golchi'n unigol. Mae gan y cartref ardal awyr agored gaeedig ddymunol, a dywedwyd wrthym fod llawer o'r bobl yn mwynhau eistedd allan yn yr haul pan fydd y tywydd yn braf.

Caiff y bobl sy'n byw yn Brynsiriol eu cadw'n ddiogel am fod gan y darparwr systemau ar waith i leihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch. Gwelsom fod archwiliadau cynnal a chadw priodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn y cartref. Diben hyn yw sicrhau cydymffurfiaeth ag archwiliadau amgylcheddol, sy'n cynnwys tymereddau'r dŵr, cyfarpar codi a chario a goleuadau argyfwng. Gwelsom dystysgrifau ar gyfer trydan, nwy a diogelwch tân. Mae'r materion a godwyd yn ystod yr asesiad risg tân wedi'u gohirio ar hyn o bryd yn sgil pandemig COVID-19. Fodd bynnag, gwelsom fod y gwasanaeth yn gweithio gyda'r adran dân i sicrhau bod yr adeilad yn cydymffurfio â'r asesiad risg, cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Gwelsom fod cynlluniau personol gadael mewn argyfwng ar waith ar gyfer y preswylwyr. Fodd bynnag, mae angen diweddaru'r rhain ac mae angen cynnwys rhagor o fanylion ynddynt er mwyn sicrhau bod y dulliau ar gyfer gwagio'r adeilad yn glir.

## Arwain a Rheoli

Mae gan y darparwr systemau ar waith i gefnogi'r gwaith o redeg y gwasanaeth yn ddidrafferth, er mwyn sicrhau bod gofal a chymorth yr unigolion yn eu galluogi i gyflawni eu canlyniadau personol. Gwnaethom edrych ar y ffeil polisïau a gweithdrefnau a gwelsom fod y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl yr angen. Mae'r datganiad o ddiben wedi cael ei adolygu, ac mae'r gwasanaeth a ddarperir yn unol â'r datganiad hwn. Mae'r cyfarfodydd staff wedi ailddechrau ar ôl brigiad o achosion o COVID-19 yn y cartref. Gwelsom fod y rheolwr yn cynnal archwiliadau misol. Fodd bynnag, nid oedd y rhain wedi cael eu cwblhau fis diwethaf, ond roedd y rheolwr yn ymwybodol o hyn ac roeddent wedi'u hamserlennu i'w cynnal.

Mae'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn cael eu cefnogi a'u hyfforddi er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y cymwyseddau priodol i gefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Gwnaethom edrych ar ffeil dau aelod o'r staff, a gwelsom fod dogfennau recriwtio a gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar waith. Gwelsom fod y gweithwyr gofal wedi cwblhau hyfforddiant sefydlu. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn unol â Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol a nodir yn natganiad o ddiben y gwasanaeth. Dywedodd y rheolwr wrthym fod trefniadau wedi'u gwneud i'r tîm rheoli gwblhau nifer o gyrsiau hyfforddi'r hyfforddwr fis nesaf, fel y gellid diweddaru hyfforddiant pob aelod o'r staff yn fewnol yn effeithiol. Mae'r gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo'n hyderus yn eu rolau, a'u bod wedi cael digon o hyfforddiant i gyflawni eu rolau.

Mae darparwr y gwasanaeth yn gweithredu diwylliant o fod yn agored, yn ddidwyll ac yn onest, ac yn sicrhau bod achosion posibl o wrthdaro buddiannau yn cael eu rheoli mewn ffordd agored. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym am y*“excellent level of support” (lefel wych o gymorth)* y maent yn ei chael, bod y “*whole management team are very approachable” (tîm rheoli cyfan yn hawdd iawn mynd atynt)* a “*they are good at giving us praise and helping us develop” (maen nhw'n dda am ein canmol a'n helpu i ddatblygu).* Yn yr un modd, cafwyd canmoliaeth gan berthnasau i ddull cyfathrebu'r gwasanaeth. Dywedodd un ohonynt “*The Management responds immediately to any questions I may ask*” *(Mae'r tîm rheoli yn ymateb yn syth i unrhyw gwestiynau a all fod gennyf)*. Cadarnhaodd adborth gan weithwyr proffesiynol hefyd fod y gwasanaeth yn gweithredu mewn ffordd dryloyw ac yn ceisio cymorth pan fo angen.

Mae gan y gwasanaeth drefniadau ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus. Gwelsom fod yr adroddiad chwemisol ar ansawdd y gofal wedi cael ei gwblhau, sy'n nodi manylion yr adborth a gafwyd gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu perthnasau a'r staff gofal. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda a pha welliannau y gellir eu gwneud. Gwelsom hefyd fod yr unigolyn cyfrifol yn cynnal archwiliadau chwarterol yn y

gwasanaeth, sy'n cynnwys archwiliadau amgylcheddol, archwiliadau o ffeiliau'r staff a goruchwylio hyfforddiant, arfarniadau a sesiynau goruchwylio'r staff.

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni** | |
|---|---|
| Iechyd a diogelwch yn y gegin | Rheoliad |
| Rheoliad 55: Cyflenwadau – Nid oedd gan y gwasanaeth gyflenwadau digonol o gyfleusterau gwaredu gwastraff angenrheidiol, ac nid oedd yr unigolion yn gallu cael gafael yn hawdd ar gyflenwadau megis PPE. Cam gweithredu: Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod cyflenwadau digonol ar gael a hynny o fath addas i ddarparu'r gwasanaeth yn effeithiol ac i ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. | Rheoliad 55 |
| Rheoliad 56: Hylendid a Rheoli Heintiau – nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod safonau hylendid boddhaol wrth ddarparu'r gwasanaeth a hynny oherwydd diffyg cyfarpar megis cyfarpar gwaredu gwastraff. Yn ogystal, nid yw'r trefniadau ar gyfer trin bwyd, glanhau a golchi dillad yn ystyried deddfwriaeth na chanllawiau cyfredol. Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud ag atal a rheoli heintiau. Cam gweithredu: Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth roi'r canlynol ar waith: • Trefniadau i sicrhau safonau hylendid boddhaol wrth ddarparu'r gwasanaeth. • Trefniadau priodol ar gyfer gwaredu gwastraff cyffredinol a gwastraff clinigol. • Polisïau a gweithdrefnau sy'n hyrwyddo hylendid ac sy'n ystyried deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol, er enghraifft y rheini sy'n ymwneud â'r canlynol: trin bwyd; golchi dwylo; trefniadau glanhau a golchi dillad. • Polisïau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli heintiau a lleihau lledaeniad heintiau. Rhaid hefyd sicrhau y caiff y gwasanaeth ei ddarparu yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn. | Rheoliad 56(1) |
| Rheoliad: 57: Iechyd a Diogelwch – Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod systemau ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel na storio a pharatoi bwyd yn ddiogel. Penderfynodd y rheolwyr ymdrin â'r materion a godwyd yma o dan Reoliad 55 a 56 yn hytrach na 57, felly bydd y gydymffurfiaeth hon yn cau o'r dyddiad y cafodd ei hagor. | Rheoliad |
| Rheoliad 16 (1) – Adolygu'r Cynllun Personol – Rhaid i'r Cynllun Personol gael ei adolygu fel sy'n ofynnol, a phan fo'n ofynnol, ond o leiaf bob tri mis | Rheoliad 16(1) |
| Rheoliad 80: Adolygiad o Ansawdd y Gofal | Rheoliad 80(1) |

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/06/2021